

Digimap for Schools

Dirgelwch Arfordirol

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Dirgelwch Arfordirol

| Lefel | Cyd-destun | Lleoliad |
|--------------------|--|---|
| Cyfnod Allweddol 2 | Nodweddion a newid mewn tri lleoliad cyferbyniol | Happisburgh, Brighton, Dinbych-y-pysgod |

| | |
|---------------------------------|---|
| Gwybodaeth | Darllen a dehongli mapiau, deall rhai rhesymau pam a sut mae lleoedd yn newid |
| Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr) | Enwi a dod o hyd i siroedd a dinasoedd y Deyrnas Unedig, rhanbarthau daeryddol a'u nodweddion dynol a ffisegol adnabod, a deall sut mae rhai o'r agweddau hyn wedi newid dros amser |
| Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru) | Amlygu nodweddion tebyg a gwahaniaethau i ddisgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau; disgrifio achosion a chanlyniadau sut mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid |
| Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban | Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: SOC 2-07b, SOC 2-08a, SOC 2-08b |

Gweithgaredd

Paru delweddau â mapiau trwy ddarllen nodweddion mapiau, trafod nodweddion tebyg a gwahaniaethau, amlygu ac esbonio newid mewn tair ardal arfordirol wahanol.

Cyflwyniad

Mae lleoedd yn newid yn barhaus a gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ddylanwadau. Mae rhai lleoedd yn newid oherwydd amgylchiadau sy'n anodd eu rheoli, fel erydiad; mae rhai eraill yn newid o ganlyniad i ddatblygu bwriadedig. Mae'r gweithgaredd hwn yn cymharu tri lle gwahanol ac yn defnyddio mapio manwl *Digimap for Schools* i alluogi disgyblion i drafod nodweddion dynol a ffisegol, patrymau defnydd tir a newid.

Mae Happisburgh, tref ar arfordir Norfolk, yn dioddef erydiad arfordirol cyflym iawn. Mae'r môr yn erydu'r amddiffynfeydd môr aneffeithiol; mae'n golchi'r clogwyni isel a'r ardaloedd mawr o dir isel, diamddiffyn i ffwrdd. Mae hyn wedi arwain at bobl yn colli eu cartrefi ac yn dioddef colled ariannol.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Pentref pysgota oedd Dinbych-y-pysgod yn arfer bod, ond mae wedi datblygu i fod yn un o'r prif gyrchfannau twristiaeth yn ne Cymru. Yn lle pysgota, rydych yn fwy tebygol o weld cychod pysgota yn mynd â phobl allan ar daith, ac mae nifer o westai, caffis a gwasanaethau eraill yn y dref ar gyfer twristiaid. Erbyn hyn, mae'n cynnig diwrnodau antur yn ogystal â diwrnodau mwy traddodiadol gyda hufen iâ a bwced a rhaw.

Mae Brighton wastad wedi bod yn dref twristiaeth boblogaidd ac mae unrhyw ddatblygu wedi'i anelu at gadw'r diwydiant hwn yn ffynnu. Mae llawer o bobl yma yn dibynnu ar dwristiaeth ar gyfer swyddi.

Prif weithgaredd

1. Defnyddiwch y delweddau a ddarparwyd ar y PowerPoint sy'n cyd-fynd â'r gwaith hwn i gyflwyno'r tri chyrchfan arfordirol gwahanol. Mae chwe delwedd: mae pob pâr yn dangos tref arfordirol wahanol. Mae'n rhaid i'r disgyblion baru'r delweddau gyda'r lleoedd a ddangosir ar y map. Mae angen cael tri map wedi'u paratoi ar yr un raddfa a rhoi fersiwn wedi'i hargraffu i barau o grwpiau i weithio arnynt. Dewis arall fyddai rhoi'r lluniau i'w disgyblion a gadael iddyn nhw ddod o hyd i'r mapiau eu hunain ac edrych arnyd nhw ar sgrin y cyfrifiadur.

- Map A Happisburgh Cyfeirnod Grid: TG379310
- Map B Brighton Cyfeirnod Grid: TQ 309 041
- Map C Dinbych-y-pysgod Cyfeirnod Grid: SN 132 006

(Gweler y PowerPoint sy'n cyd-fynd â'r gwaith hwn ar gyfer y mapiau hyn.)

2. Trafodwch y nodweddion a ddangosir ar y mapiau ac yn y lluniau. Pa mor hawdd yw hi i'w paru nhw? Defnyddiwch y lluniau a'r mapiau i drafod sut leoedd yw'r rhain. Gofynnwch i ddisgyblion siarad â phartner a gwneud nodiadau ar eu map ynglŷn â nodweddion pob lle, a'u cymharu.
3. Dangoswch y clipiau ffilm byr a ddarparwyd yn y 'dolenni gwe' a gofynnwch i ddisgyblion ystyried y newidiadau sydd wedi digwydd neu sydd yn digwydd ym mhob lleoliad. Trafodwch y rhesymau dros newid a sut gallai'r lleoedd hyn edrych yn y dyfodol. Mae gan yr holl leoedd gysylltiadau â thwristiaeth, yn union fel y rhan fwyaf o leoedd arfordirol. Trafodwch sut mae twristiaeth naill ai yn ffynnu neu'n marw allan, a pham.
4. Gofynnwch i ddisgyblion ddewis un o'r lleoliadau a defnydio *Digimap for Schools* i anodi map gyda labeli i amlygu'r nodweddion allweddol. Ysgrifennwch adroddiad am y lle hwn a sut le y gallai fod i fyw yno nawr a/neu yn y dyfodol.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mynd gam ymhellach

- Gweithiwch mewn grwpiau i ddod o hyd i ddelweddau 'Geograph' i gyd-fynd gyda mapiau o ddau neu dri lle gwahanol. Crëwch eich dirgelwch arfordirol eich hun a gweld a all grŵp arall baru'r delweddau â'r map.
- Defnyddiwch waith maes i ymchwilio i'r newidiadau sy'n digwydd yn eich ardal chi, a thynnwch luniau i ddangos beth sy'n digwydd. Defnyddiwch y nodwedd 'Add an image' (Ychwanegu



delwedd) i ychwanegu'r rhain at fap anodedig o'ch ardal leol.

Dolenni ar y we

Delweddau Geograph <http://mapzone.ordnancesurvey.co.uk/mapzone/geograph.html>

Goleudy Happisburgh <http://www.geograph.org.uk/photo/2138834>

Erydiad Happisburgh <http://www.geograph.org.uk/photo/799574>

Pier Gorllewinol Brighton <http://www.geograph.org.uk/photo/43486>

Glan Môr Brighton <http://www.geograph.org.uk/photo/24607>

Ffilm fer am Happisburgh <http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/living-with-coastal-erosion-in-happisburgh-east-anglia/7361.html>

Ffilm fer am Brighton <http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/tourism-at-the-seaside-in-brighton/8438.html>

Ffilm fer am Ddinbych-y-pysgod <http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips/the-economy-of-tenby-change-from-fishing-to-tourism/9354.html>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013



Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Dirgelwch Arfordirol

Gwnewch nodiadau i'ch helpu i esbonio'r newidiadau sy'n digwydd yn y lleoliadau hyn. Gallech ychwanegu lleoliad arall o'ch dewis chi i'w gymharu.

| Lleoliad | Prif nodweddion dynol a ffisegol | Tystiolaeth o newid | Rhesymau dros y newid |
|------------------|----------------------------------|---------------------|-----------------------|
| Dinbych-y-pysgod | | | |
| Brighton | | | |
| Happisburgh | | | |
| | | | |